# POLISI GRANTIAU

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

**Rheolaeth y fersiwn**
Cymeradwywyd y fersiwn hwn (2) o Bolisi Grantiau Cymwysterau Cymru ar 2 Rhagfyr 2019 gan Gyfarwyddwr Gweithredol yr Adnoddau Corfforaethol.

Bydd adolygiad ffurfiol o'r ddogfen hon yn digwydd o leiaf bob dwy flynedd, a bydd yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y polisi, ac yn ystyried a yw'n dal yn gyfoes. Mae'r adolygiad nesaf i fod i ddigwydd heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd 2021. Croesewir adborth ar y polisi hwn yn y cyfamser. Anfonwch eich sylwadau at procurement@qualificationswales.org .

Mae'r polisi hwn ar gyfer staff Cymwysterau Cymru, y rhai sy'n derbyn ei grantiau a'r rhai a allai dderbyn grantiau gan Gymwysterau Cymru.  Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y bydd Cymwysterau Cymru yn eu dilyn wrth ystyried sicrhau bod grant ar gael.

**CYFLWYNIAD**

1. Mae adran 50 Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (y Ddeddf) yn galluogi Cymwysterau Cymru i:

   "roi grantiau i unigolyn os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau Cymwysterau Cymru".

   Gallai Cymwysterau Cymru ddyfarnu grantiau i helpu i gyflawni ei brif nodau:

   - sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
   - hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru

   Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddibenion cyflawni ei brif nodau, byddwn yn ystyried yr wyth mater y cyfeirir atynt yn y Ddeddf

**EGWYDDORION CYFFREDINOL**

**2. Pam y gallai Cymwysterau Cymru ddarparu cyllid grant?**

2.1 Fel rheolydd sy'n gyfrifol am weithredu system gymwysterau Cymru yn effeithiol, gallwn ddewis defnyddio cyllid grant fel rhan o'n pecyn cymorth polisi i ymyrryd er mwyn gwella effeithiolrwydd cyffredinol.

Er enghraifft, mae Polisi Rheoleiddio Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog, wrth ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn nodi y gallai Cymwysterau Cymru ddarparu cefnogaeth, fel cymorth ariannol, i gyrff dyfarnu i'w cynorthwyo nhw i ateb y galw am gymwysterau sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel enghraifft arall, pan fyddwn wedi cyflwyno cymwysterau newydd, mae'n bosibl y byddwn yn darparu cefnogaeth i helpu dysgwyr.

2.2 Gallwn hefyd ddosbarthu a gweinyddu grantiau yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Yn yr achosion hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid wedi'i neilltuo.

## 3. Sut y bydd Cymwysterau Cymru yn dyrannu ac yn monitro cyllid grant?

Byddwn yn dyfarnu ac yn rheoli ein grantiau yn unol â'r egwyddorion arfer gorau a nodir yn Atodiad 5.1 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn benodol:

- rhaid talu cyllid grant yn unol â thelerau'r cytundeb grant
- rhaid i dderbynwyr grantiau gyflwyno hawliadau sydd wedi'u cwblhau'n foddhaol gyda thystiolaeth ategol
- dylai taliadau gael eu rhoi yn unol ag amserlen
- mae'r swyddog cyfrifyddu (Prif Weithredwr) yn gyfrifol am sicrhau bod derbynwyr grantiau yn gymwys ac yn defnyddio'r grant yn y ffordd a fwriadwyd o dan y cytundeb grant
- rhaid bod â dealltwriaeth dda o ffynonellau incwm eraill y sawl sy'n derbyn y grant er mwyn osgoi dyblygu cyllid
- sicrhau bod hawliau mynediad statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael eu nodi yn y cytundeb grant
- cynaliadwyedd y sawl sy'n derbyn y grant
- amcanion, canlyniadau ac allbynnau clir ar gyfer y cyllid

Bydd y rheswm dros bob cynllun grant yn cael ei ystyried gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru cyn i swyddogion ddechrau gofyn am gynigion gan ddarpar dderbynwyr. Rhaid i'r Bwrdd Rheoli gymeradwyo pob cynllun grant cyn cyflwyno llythyrau cynnig i'r derbynwyr. Byddant hefyd yn ystyried blaenoriaethu cynlluniau a grantiau unigol lle bo angen.

Yn ogystal, lle mae gwerth grant arfaethedig dros £550,000, rhaid i Uned Nawdd Llywodraeth Cymru roi cymeradwyaeth i symud ymlaen i'w ddyfarnu fel y nodwyd yng Nghynllun Dirprwyo Cymwysterau Cymru.

## 4. Beth yw'r ystyriaethau allweddol ar gyfer sefydlu Grantiau?

Wrth sefydlu grantiau byddwn yn ystyried yr egwyddorion canlynol o ran rheoli grantiau yn dda (fel y nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru).

### i. Eglurder y meini prawf a'r amcanion

Byddwn yn sicrhau bod pob grant:

- yn nodi sut mae'n cyfrannu at bolisïau a blaenoriaethau Cymwysterau Cymru
- wedi diffinio canlyniadau neu allbynnau prosiect yn glir gyda safonau ansawdd cysylltiedig
- yn nodi sut y bydd Cymwysterau Cymru yn mesur y canlyniadau neu'r allbynnau a sut mae'r rhain yn diwallu anghenion dysgwyr
- yn cynnwys safonau rheoli prosiectau
- yn cynnwys safonau rheoli ariannol
- yn un y mae amodau cadarn ynghlwm wrtho
- yn diffinio 'perfformiad gwael' a'r mesurau i'w cymryd i'w unioni

- yn manylu ar yr adnoddau sydd eu hangen
- lle bo hynny'n briodol, yn nodi sut mae Cymwysterau Cymru wedi rhoi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a chydlyniant cymdeithasol
- lle bo hynny'n briodol, byddwn yn nodi sut y mae'n cefnogi dyletswyddau Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- yn nodi sut yr ystyriwyd Safonau'r Gymraeg.

### ii. Lleihau cymhlethdod

Byddwn yn anelu at wneud y cytundeb grant a'i reolaeth

- yn syml a chymesur
- yn gyson
- wedi'i gydlynu'n glir ac yn effeithiol
- yn dryloyw ac atebol

Bydd hyn yn sicrhau na fyddwn yn rhoi unrhyw faich diangen ar dderbynwyr grantiau.

### iii. Ystyried hyfywedd, capasiti a gallu'r derbynwyr

Yn ystod cam y cynnig byddwn yn asesu hyfywedd, capasiti a gallu darpar dderbynwyr grantiau ac yn lliniaru unrhyw risgiau a nodwyd gan fonitro cynyddol wrth gyflawni'r prosiect.

Gellir gwneud asesiad ar sefyllfa ariannol pob darpar dderbyniwr i roi sicrwydd ynghylch eu gallu i gyflawni'r canlyniadau neu'r allbynnau sy'n ofynnol o ddyfarnu'r grant. Efallai y byddwn yn asesu risg ariannol gan ddefnyddio asiantaeth cyfeirio credyd yn y lle cyntaf. Pan fydd yr adroddiad credyd yn nodi pryderon ynghylch hyfywedd y sefydliad sy'n gofyn am y grant, gofynnir am farn y Pennaeth Cyllid a lle bernir ei fod yn gymesur â maint y grant ac unrhyw risgiau a nodwyd, gellir gwneud gwiriadau pellach megis adolygiad o gyfrifon archwiliedig, cyfrifon rheoli, rhagolygon llif arian a rhagolygon cynllun busnes.

### iv. Cynllunio a rheoli da

Byddwn yn cynllunio ac yn rheoli grantiau i sicrhau bod canlyniadau neu allbynnau arfaethedig yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus. Rhaid inni allu dangos i'r cyhoedd bod y cyllid yn cael ei weinyddu a'i wario mewn ffordd deg a thryloyw.

### v. Amodau grant cadarn

Byddwn yn defnyddio amodau grant cadarn ac yn cynnwys y rhain ym mhecyn cais y cynnig a'r llythyr cynnig grant.

vi. **Asesu a lliniaru risg**

Rhaid i dderbynwyr grantiau ddangos llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Rhaid i dderbynwyr grantiau ein hysbysu ar unwaith os amheuir bod unrhyw un o'i swyddogion sy'n ymwneud â thrafod arian cyhoeddus yn gweithredu'n dwyllodrus. Bydd staff Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio cyllid grant yn cael hyfforddiant rheoli risg, gan gynnwys ymwybyddiaeth o dwyll yn ôl yr angen ac fe'u hanogir i ofyn am gyngor ar unrhyw faterion gan y Penaethiaid Llywodraethu Corfforaethol a Chyllid. Lle y bo'n briodol, byddant yn gwneud defnydd o gofrestrau risg sy'n cwmpasu cylch bywyd llawn pob cynllun grant ac yn eu hadolygu bob chwarter o leiaf.

Byddwn yn ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau a ariennir ac yn gofyn i'r sawl sy'n derbyn y grant ddarparu strategaeth ymadael ar gyfer pob grant ar ddechrau'r broses a fydd yn tynnu sylw at unrhyw risgiau i Gymwysterau Cymru a'r derbynwyr a allai fod yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod grant. Byddwn yn ymdrechu i roi rhybudd o'n bwriadau ar gyfer y dyfodol o leiaf dri mis cyn diwedd cyfnod y grant.

vii. **Monitro parhaus**

Bydd lefel ac amlder ein monitro yn gymesur â'r risg ac fel y nodwyd yn y llythyr cynnig grant. Gofynnir i dderbynwyr roi gwybod am y cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau neu'r allbynnau a nodwyd ynghyd ag unrhyw faterion a allai effeithio ar eu cyflawni, gan gynnwys eu sefyllfa ariannol. Bydd hyn yn caniatáu inni gymryd camau adferol ar yr adeg iawn lle bo angen.

Byddwn yn cymryd camau cadarn pan fydd grantiau wedi'u camddefnyddio trwy atal cyllid, gan adennill symiau priodol lle bo angen a, lle mae'r cyllid yn parhau, yn cryfhau'r gofynion ar dderbynwyr a threfniadau monitro cyn rhyddhau cyllid pellach.

Dylai adroddiadau perfformiad gan dderbynwyr y grant gynnwys i ba raddau y mae'r grant yn sicrhau prif nodau Cymwysterau Cymru (a gyhoeddir ar ein gwefan) yn ogystal ag ymdrin â chyflawni canlyniadau neu allbynnau mesuradwy ar unwaith. Bydd mesurau priodol o ganlyniadau neu allbynnau ar gyfer dysgwyr yn cael eu diffinio yn y llythyr cynnig grant.

viii. **Cadw cofnodion**

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal rheolaeth dda ar gofnodion a byddwn yn disgwyl i dderbynwyr grantiau wneud yr un peth. Byddwn yn defnyddio ein system rheoli perthynas â chwsmeriaid i ddangos yr holl gyfathrebu a'n system gyllid i gofnodi pob taliad grant. Byddwn yn cofnodi hawliadau, monitro, amrywiadau a gwerthuso.

ix. **Gwerthuso - interim a therfynol**

Byddwn yn cynnal gwerthusiad terfynol ar ddiwedd oes pob grant a, lle bo hynny'n briodol, gwerthusiad dros dro yn ystod ei oes lle mae'r grant yn mynd dros fwy na deuddeg mis a /neu lle

mae problemau yn ymwneud â chyflawni'r canlyniadau neu'r allbynnau y cytunwyd arnynt wedi'u hamlygu o'r drefn fonitro.

x. **Ymdrin â pherfformiad gwael**

Byddwn yn ymdrin â pherfformiad gwael a hawliadau anghywir neu rai gyda thystiolaeth annigonol. Byddwn yn gofyn am gyflwyno hawliad wedi'i gwblhau'n gywir gyda'r holl dystiolaeth ofynnol cyn i unrhyw daliad gael ei wneud. Bydd diffyg cynnydd tuag at y canlyniadau neu'r allbynnau y cytunwyd arnynt yn cael ei amlygu i'r derbynnydd yn ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb (wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig) gyda chynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda therfynau amser i unioni'r sefyllfa. Gallai perfformiad gwael dro ar ôl tro arwain at dynnu'r grant yn ôl. Bydd y diffiniad o berfformiad gwael yn cael ei nodi yn amodau'r grant ynghyd â pha rwymedïau sydd ar gael inni. Gallwn rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformwyr gwael parhaus â Llywodraeth Cymru ac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sy'n cyfrannu at ariannu'r sawl sy'n derbyn y grant.

xi. **Sicrwydd annibynnol**

Gallai gweinyddu grantiau fod yn rhan o'r cynllun archwilio blynyddol

Os ydym o'r farn bod angen sicrwydd allanol o hawliadau, byddwn yn ystyried gyda'n harchwilwyr yr angen i dderbynwyr grantiau ddarparu tystysgrifau archwilydd i Gymwysterau Cymru fel rhan o'r broses hawlio ac os felly, pa archwilwyr y byddwn yn eu nodi fel rhai sy'n gallu ardystio hawliadau.

| | |
|---|---|
| **Perchennog y polisi** | Elizabeth Frizi, Pennaeth Caffael |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 04/12/2019 |
| **Corff cymeradwyo** | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol |
| **Dyddiad adolygu'r polisi** | 30/11/2021 |
| **Cynulleidfa'r polisi** | Staff Cymwysterau Cymru, derbynwyr grantiau a darpar dderbynwyr grantiau |
| **Cyhoeddir yn Fewnol /Allanol** | Cyhoeddir yn fewnol ac yn allanol |